

Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol

yng Ngharchar Berwyn EF

**Ar gyfer blwyddyn adrodd
1 Mawrth 2021 – 28 Chwefror 2022**

Cyhoeddwyd Medi 2022

Cynnwys

Adrannau Rhagarweiniol 1 - 3	Tudalen
1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol	3
2. Disgrifiad o'r sefydliad	4
3. Crynodeb gweithredol	5
Adrannau Tystiolaeth 4 – 7	
4. Diogelwch	8
5. Triniaeth deg a dyngarol	12
6. Iechyd a lles	16
7. Cynnydd ac ailsefydlu	20
Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol	
Cefnogaeth y Bwrdd	24
Ceisiadau i'r BMA	25

Cyhoeddir pob adroddiad blynyddol y Bwrdd Monitro Annibynnol ar www.imb.org.uk

Adrannau rhagarweiniol 1 – 3

1. Rôl statudol y Bwrdd Monitro Annibynnol

Mae Deddf Carchardai 1952 yn mynnu bod pob carchar yn cael ei fonitro gan Fwrdd annibynnol, wedi'i benodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, o blith aelodau o'r gymuned lle mae'r carchar wedi'i leoli.

O dan y Fframwaith Monitro Cenedlaethol y cytunwyd arno gyda gweinidogion, mae'n ofynnol i'r Bwrdd wneud y canlynol:

- bodloni ei hun bod y rhai yn nalfa'r carchar yn cael eu trin yn ddyngarol ac yn gyfiawn, a bod y rhaglenni sy'n eu paratoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn amrywiol ac yn ddigonol
- rhoi gwybod yn brydlon i'r Ysgrifennydd Gwladol, neu i unrhyw swyddog y mae awdurdod wedi'i ddirprwyo iddo fel y mae'n ei ystyried yn briodol, am unrhyw bryder sydd ganddo
- cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ba mor dda y mae'r carchar wedi bodloni'r safonau a'r gofynion a osodwyd arno, a pha effaith mae'r rhain yn eu cael ar y rhai yn ei ddalfa.

I alluogi'r Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol, mae gan ei aelodau hawl mynediad at bob carcharor a phob rhan o'r carchar, ac at gofnodion y carchar.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i lunio i gryfhau gwarchodaeth i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r protocol yn cydnabod bod pobl o'r fath yn arbennig o agored i niwed ac yn ceisio eu hatal rhag cael eu trin yn wael drwy sefydlu system o ymweliadau neu arolygon ar gyfer pob dalffa. Mae OPCAT yn mynnu bod Gwladwriaethau'n dynodi Mecanwaith Atal Cenedlaethol i gynnal ymweliadau â mannau sy'n cadw pobl yn gaeth, i fonitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer ceiswyr lloches ac i wneud argymhellion i atal pobl rhag cael eu trin yn wael. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn rhan o Fecanweithiau Atal Cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

2. Disgrifiad o'r sefydliad

Mae Carchar Berwyn EF wedi'i leoli ar Stad Ddiwydiannol Wrecsam yng Ngogledd Cymru. Mae'n garchar remand, derbyn, ailsefydlu a hyfforddi categori C, gyda'r gallu i ddal 2,106 o garcharorion. Yn ystod pandemig Covid-19 gostyngwyd hyn i 1,801 ac mae'n parhau i fod ychydig yn is na 2,000 o ddynion. Mae uned ar gyfer carcharorion agored i niwed, gan gynnwys nifer o garcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhyw (PCOSO).

Mae'r carchar yn cynnwys tri phrif dŷ: Alwen, Bala a Ceiriog. Rhennir pob tŷ yn wyth cymuned. Mae'r llety ym mhob cymuned yn gyfuniad o gelloedd deiliadaeth dwbl a sengl. Ar draws y carchar, mae 30% o gelloedd yn ddeiliadaeth sengl a 70% yn ddeiliadaeth ddwbl. Ochr yn ochr â'r prif gymunedau, mae gan y carchar uned gofal a gwahanu (CSU; Ogwen) sy'n gallu dal 21 o garcharorion.

3. Crynodeb gweithredol

3.1 Cefndir yr adroddiad

Ers mis Ebrill 2021 mae aelodau'r Bwrdd wedi gallu ymweld â'r sefydliad, er eu bod wedi'u cyfyngu gan fesurau Covid-19. Mae ceisiadau'n parhau i ddod i law drwy'r system 0800, ac mae'r blychau ar bob adain bellach wedi'u hailagor. Gan fod llawer o staff carchardai yn gweithio gartref drwy gydol y cyfnod, roedd yn rhaid gwneud rhai ymholiadau dros y ffôn. Diolchwn i'r Llywodraethwr a'i holl dîm am ateb ein galwadau ffôn a'n e-byst i gefnogi ein gwaith. Barn y Bwrdd yw bod y Llywodraethwr a'i staff wedi gweithio'n galed i leihau effeithiau cwtogi ar y drefn adsefydlu arferol yn y Berwyn ac i reoli'r effaith ansefydlog a achoswyd gan Covid-19, yn enwedig wrth i lacio mesurau y tu mewn i'r carchar ddigwydd ar gyfradd arafach na'r llacio mesurau ar y tu allan.

Mae'r Bwrdd yn nodi bod hon eto wedi bod yn flwyddyn heriol gyda llai o gapasiti gweithredol ar gyfer trosglwyddo i garchardai eraill. Mae'r Bwrdd wedi cael ar ddeall bod hyn oherwydd gostyngiadau mewn staffio gweithredol am resymau sydd yn gysylltiedig â Covid-19. Mae hwn yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder.

Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd:

- roedd 60 o swyddi gwag allan o gyflenwad o 360 o swyddogion carchar band 3 (17%)
- roedd 5.5 o swyddogion prawf mewn swydd allan o 17.5 gofynnol (31%)
- dim ond un gweinyddwr Cwynion (OCA) a neilltuwyd i'r carchar gan HMPPS.

3.2 Prif farnau

Pa mor ddiogel yw'r carchar?

Mae'r Bwrdd yn credu bod y sefydliad yn ddiogel. (Gweler *Adran 4: Diogelwch*)

Pa mor deg a dyngarol y mae carcharorion yn cael eu trin?

Mae'r Bwrdd yn credu bod trefn gwrtais a pharchus ar y cyfan ac mae'r berthynas rhwng staff a charcharorion yn dda ar y cyfan. Ers diwedd cyfyngiadau Covid-19 bu canfyddiad ymhlith rhai carcharorion bod swyddogion, sydd mewn llawer o achosion newydd eu recriwtio, wedi colli rhai sgiliau cyfathrebu ac mae hyn yn cael ei unioni gyda hyfforddiant ychwanegol.

Mae'r Bwrdd yn credu bod y llety a gynigir o safon dda.

Pa mor dda mae anghenion iechyd a lles carcharorion yn cael eu diwallu?

Mae'r Bwrdd yn nodi bod lefel y ddarpariaeth gofal iechyd cystal yn gyffredinol â'r ddarpariaeth yn y gymuned, ac mewn rhai achosion yn well mewn perthynas â chymarebau cleifion i weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Fodd bynnag, mae cywerthedd gwasanaeth yn bwysig, a rhaid ystyried y crynodiad o broblemau corfforol, seicolegol a deintyddol o fewn poblogaeth y carchardai. Felly, efallai na fydd y gwasanaethau a gynigir yn ddigonol, gyda'r amseroedd aros ar gyfer gofal deintyddol, er enghraifft, ar gyfartaledd yn 12 mis.

Pa mor dda yw cynnydd carcharorion tuag at adsefydlu llwyddiannus?

Yn ystod 2021, arweiniwyd prosiect Cyflymydd gan reolwr allanol i wella cyfraddau ailsefydlu. Rydym yn croesawu'r peilot ac yn gobeithio y bydd y buddion yn parhau ac yn cael eu datblygu ar ôl i'r peilot ddod i ben. Mae'r ganolfan adsefydlu sydd wedi'i phenodi'n dda yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar garcharorion sydd ar fin cael eu rhyddhau, ac mae cyfran y carcharorion sy'n cael eu rhyddhau heb gyfeiriad sefydlog yn isel. (*Gweler Adran 7.5: Cynllunio ailsefydlu*)

Ailddechreuodd addysg, a gwtogwyd yn ystod cyfyngiadau Covid-19, ddiwedd 2021, gyda phresenoldeb fel y manylir isod. (*Gweler Adran 7.1: Addysg, llyfrgell*)

3.3 Prif feysydd i'w datblygu

I'R GWEINIDOG

Mae'r Bwrdd yn pryderu am y diffyg staff digonol, sef y ffactor ansefydlogi mwyaf yn y carchar. Gobeithiwn weld mwy o gyllid i helpu i recriwtio a chadw staff gweithredol rheng flaen.

I'R GWASANAETH CARCHAR

Mae'r Bwrdd yn pryderu bod y sefydliad yn cael ei effeithio'n rheolaidd gan brinder staff, gan achosi trefniadau cyfyngedig ac effeithio ar fentrau pwysig megis gwaith allweddol.

Mae'r Bwrdd yn pryderu nad oedd gweithdai'n gwbl weithredol yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

I'R LLYWODRAETHWR

Wrth i boblogaeth y carchar heneiddio, hoffai'r Bwrdd weld hyfforddiant i staff ar adnabod ac ymdrin â dementia ac anghenion eraill sy'n gysylltiedig ag oedran.

3.4 Cynnydd ers yr adroddiad diwethaf

- Ers ein hadroddiad blaenorol, mae'r Bwrdd wedi cael mynediad i ystafelloedd cyfarfod addas ac mae swyddfa'r Bwrdd wedi cael dodrefn ychwanegol.
- Mae'r ganolfan ailsefydlu bellach wedi agor ac mae wedi'i benodi'n dda ac yn denu nifer dda.
- Mae'r problemau gyda'r system wresogi a'r diffygion paent yn y celloedd yn cael eu datrys. Sicrhawyd bod cyllid contractwr ar gael ac mae gwaith adfer yn mynd rhagddo. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cymryd 2.4 blynedd.
- Mae amseroedd aros gofal iechyd yn dal yn hir – fel ag yn y gymuned – ond mae meddyg, deintydd a nyrs ddeintyddol ychwanegol wedi'u recriwtio.
- Mae aelod staff ychwanegol wedi'i ddyrannu o'r staff presennol i OCA ac mae nifer y cwynion heb eu datrys ynghylch trosglwyddiadau wedi'i leihau. Mae amseroedd ymateb hefyd wedi gwella.
- Mae swyddogion ychwanegol wedi'u recriwtio, ond mae hyn yn golygu bod llawer yn ddibrofiad ac angen hyfforddiant a chefnogaeth. Yn wreiddiol roedd recriwtio'n cael ei wneud yn ganolog, gan arwain at gyfraddau cadw isel. Mae'n braf gweld bod Carchar Berwyn EF wedi sicrhau awdurdod i ddatblygu a threalu recriwtio swyddogion carchar yn ystod 2022, ac edrychwn ymlaen at weld canlyniadau cadarnhaol o'r gwaith hwn yn y misoedd nesaf..

Adrannau tystiolaeth 4 – 7

4. Diogelwch

Fel ym mhob maes, bu prinder staff ac aflonyddwch sylweddol oherwydd Covid-19. Mae hyn wedi arwain at rai ffigurau perfformiad gwael, ac amlygodd adroddiad drafft grŵp sicrwydd gweithredol a system HMPPS (OSAG) o fis Tachwedd 2021 ddiffygion yn ogystal â chyflawniadau. Mae gweithdrefnau a hyfforddiant newydd wedi'u datblygu i gwrdd â'r heriau hyn ac mae sesiynau hyfforddi wedi'u darparu. Caiff perfformiad ei adolygu a'i fonitro mewn cyfarfodydd wythnosol neu fisol - carchar mwy diogel, rheoli achosion yn well, ymyrraeth diogelwch, strategaeth gyffuriau. Mynychir y rhain gan uwch reolwyr a swyddogion gofal iechyd, ac mewn rhai achosion, carcharorion a staff gweithredol, a chaiff y camau a gymerir eu monitro mewn cyfarfodydd dilynol.

4.1 Derbyn a sefydlu

Mae'r dderbynfa wedi'i threfnu'n dda, gyda phroses glir wedi'i hadlewyrchu yng nghynllun y dderbynfa olau ac awyrog. Mae ystafelloedd ar wahân ar gyfer cyfweiliadau gofal iechyd ac eiddo. Rhoddir bwyd i'r rhai sy'n cyrraedd sy'n cael ei gadw mewn troli gweini bwyd wedi'i gynhesu.

Pan fydd carcharorion yn cyrraedd wrth gael eu trosglwyddo neu'n dychwelyd o'r ysbyty, maent yn cael eu hanfon gyda ffurflen cofnod hebrwng person (PER) sy'n ddigonol ac yn casglu gwybodaeth berthnasol. Mae'r ffurflenni hyn bellach yn ddigidol yn bennaf, ond mae rhai copïau caled ar ffeil. Mae carcharorion newydd yn cael eu hasesu gan ddadansoddwyr diogelwch sy'n llenwi ffurflen PER ar eu cyfer sy'n cael ei ffeilio gyda diogelwch. Cwblheir holiadur anghenion ar gyfer pob carcharor ac mae'n ddigonol ac yn cynnwys gwybodaeth berthnasol. Gall swyddogion gynorthwyo'r carcharorion sy'n cyrraedd yn hyn o beth. Os na all carcharor gyfathrebu'n dda yn Gymraeg neu Saesneg, mae siaradwyr Cymraeg ar gael, ac ap iaith. Os na all y carcharor ddarllen nac ysgrifennu, mae staff neu swyddogion yn ei helpu i lenwi'r ffurflen.

Os oes aelodau gang hysbys, mae digon o le yn y sefydliad i'w cadw ar wahân i'w gilydd. Mae marciwr digyswllt sy'n amlygu risg yn cael ei gofnodi ar y System Genedlaethol Gwybodaeth Rheoli Troseddwyr (NOMIS).

Os yw'r ffurflen PER yn nodi bod dyn yn agored i niwed neu'n PCOSO, caiff ei roi ar wahân ar yr adain ar gyfer carcharorion agored i niwed. Mae'r dderbynfa'n anfon e-bost at staff dalfa fwy diogel, sy'n ymweld â nhw o fewn dau ddiwrnod.

Pan fydd carcharorion yn cyrraedd gyda dogfen monitro asesiad hunan-niwed, gofal yn y ddalfa a gwaith tîm (ACCT), mae swyddogion y ddalfa fwy diogel yn gyffredinol wedi cael eu hysbysu trwy e-bost gan y sefydliad trosglwyddo. Ar adegau nid yw hyn yn digwydd, ond mae ffurflen atal hunanladdiad a hunan-niwed (SASH) yn cael ei rhoi ar NOMIS ac ar ffeil yr adain.

Mae'r holl bresgripsiynau presennol yn cael eu hadolygu wrth gyrraedd ac nid ydynt yn cael eu hadnewyddu'n awtomatig, i sicrhau eu bod yn glinigol ac yn gost-effeithiol. Mae staff yn cyfaddef nad yw hyn bob amser yn digwydd yn gyflym, gan arwain at gwynion a diffyg cydymffurfio. Y pryder mwyaf cyffredin a godwyd gyda'r Bwrdd ynghylch sefydlu yw'r rhaglen optimeiddio meddyginiaethau. (*Gweler Adran 6.1: gofal iechyd cyffredinol*).

Caiff swyddogion eu cynorthwyo gan rhwng tri a phump o fentoriaid cymheiriaid (mae'r niferoedd weithiau wedi bod yn is oherwydd ynysu Covid-19). Roedd y rhai a gyfwelwyd yn ymwybodol o anghenion penodol oedolion ifanc. Cyflwynir y cyfnod sefydlu gan gymheiriaid o fewn dau ddiwrnod, ac ailddechreuodd sesiynau sefydlu wyneb yn wyneb ym mis Chwefror 2022.

4.2 Hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa

Roedd 1,638 o achosion o hunan-niwed, sy'n gynnwys o 14.5% ar y 1,431 o ddigwyddiadau a gofnodwyd yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf, tra bod poblogaeth y carchardai wedi codi 6%. Agorwyd 850 ACCT yn ystod y flwyddyn adrodd o'i gymharu â 958 yn y cyfnod adrodd blaenorol. Mae uwch reolwyr yn ymwybodol nad yw pob ACCT wedi'i gwblhau'n gywir ac o fis Chwefror 2022, mae monitro ansawdd wythnosol wedi bod yn digwydd, gan wirio rhwng 20% a 30% o'r holl Actau. Mae'r holl adolygiadau ACCT hwyr yn cael eu cofnodi ar y cofnod ac mae'r swyddog trefniadol nos bellach yn asesu a ddylid cynnal adolygiad ACCT dros nos neu a oes angen mesurau ychwanegol (fel newidiadau mewn arsylwadau/sgyrsiau) cyn cynnal yr adolygiad achos ar y diwrnod gwaith nesaf. Mae hyfforddiant ACCT ychwanegol wedi'i ddarparu.

Ers mis Hydref 2021, mae hunan-ynyswyr, a'r rhesymau, wedi'u cofnodi yn y log hunan-ynysu. Trafodir crynodeb manwl o'r 24 awr flaenorol yn y cyfarfod ymyrraeth diogelwch dyddiol (SIM), gan gynnwys carcharorion sy'n peri pryder allweddol, y rhai sy'n gwrthod bwyd, unigolion sy'n ynysu, carcharorion sydd wedi hunan-niweidio, ACCTau a agorwyd, nifer yr ACCTau sydd i'w hadolygu, carcharorion yn aros i gael ei drosglwyddo i uned ddiogel, digwyddiadau treisgar, her, cefnogaeth, ac adolygiadau o'r cynllun ymyrryd (CSIP) a gwybodaeth am dderbyniadau newydd. Mynychir SIMau gan uwch staff carchardai, yr uned rheoli troseddswyr (OMU) a chynrychiolwyr gofal iechyd, a chaiff camau gweithredu eu monitro mewn cyfarfodydd dilynol.

Mae'r Bwrdd yn nodi gyda thristwch y bu dwy farwolaeth yn y ddalfa, y ddwy yn ôl pob golwg oherwydd achosion naturiol. Nid yw adroddiadau'r crwner wedi'u cwblhau eto.

Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiad swyddog y dydd gan y llywodraethwr sy'n manylu ar yr holl ddigwyddiadau yn y 24 awr flaenorol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y carcharorion mwyaf agored i niwed ac mewn perygl, a carcharorion ar ACCTau.

Mae un ar ddeg o Wrandawyr newydd wedi'u hyfforddi, gan ddod â'r nifer i ddeg ar gyfer pob cymuned. Mae gwrandawyr yn cael eu hyfforddi gan y Samariaid, i ddarparu cymorth emosiynol i'r rhai sy'n ystyried hunanladdiad neu hunan-niwed yn y carchar.

Yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd swyddogion y llinell gymorth a staff gweithdai nad oedd yn gallu cyflawni eu dyletswyddau yn cysylltu â charcharorion a oedd yn hunan-ynysu yn dilyn prawf Covid positif, neu garcharorion ar ACCTau. Ers i'r cyfyngiadau symud gael eu lleddfu, cysylltir yn rheolaidd â charcharorion nad ydynt wedi cael ymweliadau teuluol ers dros fis. Mae'r Bwrdd yn nodi bod hyn yn enghraifft o arfer rhagorol.

4.3 Trais a lleihau trais, hunan-ynysu

Pan fydd carcharorion yn dweud eu bod yn teimlo'n anniogel, maent fel arfer yn cael eu hadleoli i gymunedau eraill neu'r uned gofal a gwahanu (CSU), os yw eu pryderon yn cael eu hategu gan dystiolaeth. Pan oedd aelodau'r Bwrdd yn holi carcharorion, dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn teimlo'n ddiogel, ond roedd 405 o ymosodiadau gan garcharorion ar garcharorion, gan gynnwys pum ymosodiad rhywiol, gyda 29, neu 7.2%, yn cael eu dosbarthu fel ymosodiadau difrifol. Yn y flwyddyn adrodd flaenorol, y ffigyrau cyfatebol oedd 301, 38 ohonynt yn ymosodiadau difrifol. Mae cyfran yr ymosodiadau difrifol wedi gostwng ers i'r cyfyngiadau symud gael eu codi, tra bod poblogaeth y carchardai wedi codi 6%, sy'n welliant da yn ôl y Bwrdd. Bu 242 o ymosodiadau ar staff, gyda 17, neu 7% yn cael eu dosbarthu fel rhai difrifol.

Mae CSIPau (cynlluniau ymyrraeth gofal a chymorth) presennol yn cael eu hadolygu mewn cyfarfodydd rheoli achosion estynedig wythnosol a fynychir gan uwch staff a chynrychiolwyr iechyd meddwl. Mae hyfforddiant uwchsgilio CSIP yn cael ei ddarparu i holl staff yr adain.

4.4 Defnydd o rym

Bu gwelliant sylweddol o ran defnyddio casglu a dadansoddi data grym, proses a ddisgrifir yn adroddiad OSAG fel un 'cadarn'. Mae hyn wedi arwain at well hyfforddiant dad-ddwysáu, arweiniad ar osgoi taro wyneb, a gwell adborth ar ôl-drafodaeth (sy'n cynnwys y carcharor a oedd yn gysylltiedig) ar ôl defnyddio grym. Mae ffurflen F213 yn cael ei chwblhau gan ofal iechyd ar gyfer 100% o ddigwyddiadau. Trafodir y data mewn cyfarfodydd diogelwch wythnosol, gyda dadansoddiad o ddigwyddiadau penodol gan gynnwys ymatebion swyddogion, a thystiolaeth o gamau gweithredu sydd wedi'u cau. Mae yna adegau o hyd pan nad yw camerâu fideo a wisgir ar y corff (BWVC) yn cael eu troi ymlaen. Mae'r defnydd o BWVCau wedi'i gynnwys yn yr ymchwiliad ar ôl digwyddiad, lle mae'r rhesymau pam na ddefnyddiwyd BWVCau yn cael eu dadansoddi. Gall y rhain fod yn BWVCau wedi torri neu fethiant i'w cofnodi, ond mae dadansoddiad cyflym yn caniatáu i gamau gael eu cymryd, a gweithredu mesurau ymarferol, disgyblu neu fesurau eraill. Mae'n

bosibl bod y goruchwyliaeth a'r hyfforddiant gwell hwn wedi cyfrannu at y gostyngiad yn nifer yr achosion o ddefnyddio grym ers dechrau 2022.

Cofnodwyd 1,538 o achosion o ddefnyddio grym rhwng Mawrth 2021 a Chwefror 2022. Roedd hyn yn gynydd o 16% o'r cyfnod cyfatebol rhwng 2020 a 2021, pan oedd 1,326 o achosion o rym.

Gellir dadansoddi'r 1,538 fel a ganlyn:

Rheolaeth ac ataliaeth lawn	634 (41.2%)
Gafael hebryngol	349 (22.7%)
Grym rhesymol (rhoi cyffion i hebrwng)	296 (19.2%)
Grym rhesymol	152 (9.9%)
Amddiffyniad personol yn unig	108 (7%)

Mae'r Bwrdd yn nodi bod cyfanswm y ffigurau misol yn 2022 hyd yma yn is nag yn 2021, e.e. Cofnodwyd 158 ym mis Chwefror 2021 a gwelodd Chwefror 2022 98 (gostyngiad o 38% yn y defnydd o rym, o'i gymharu â chynnydd o 4% yn y boblogaeth rhwng y ddau gyfnod amser hyn).

Yn ystod y flwyddyn adrodd rhwng Mawrth 2021 a Chwefror 2022, gwelwyd cynnydd yn y defnydd o afael hebryngol, gyda gwelliant yn llwyddiant gafael hebryngol (h.y. llai o afael hebryngol yn cynyddu i reolaeth ac ataliaeth lawn).

Mae'r defnydd cyffredinol o gyffion yn dechrau gostwng, yn arbennig yn ystod hebrwng i CSU, lle mae mwy o garcharorion yn cael eu cerdded gan staff, ar ôl penderfynu nad oes angen gefynnau.

Ers mis Tachwedd 2022, bu gostyngiad yn y defnydd o daro sy'n cael ei gyflawni ar gyfer amddiffyniad personol, ac mae tîm rheoli'r carchar wedi craffu ar bob digwyddiad drwy gwblhau log penderfyniadau. Mae'r carchar hefyd wedi codi ymwybyddiaeth o'r mater hwn mewn cylchlythyr a thrwy gyflwyniad fideo wrth y giât, yn amlygu meysydd risg.

Roedd un digwyddiad o ddefnyddio chwistrell PAVA ar garcharor – cafodd hwn ei gyflawni gan aelod o dîm y grŵp ymateb tactegol cenedlaethol.

4.5 Atal eitemau anghyfreithlon

Fel y nodwyd yn adran 6.1, mae meddyg yn gweld pob carcharor wrth gyrraedd. Lle ceir problemau gyda chyffuriau neu alcohol, caiff y rhain eu cofnodi ar ffeil yr adain a chedwir carcharorion fel y bo'n briodol.

Rhaid i bawb sy'n cyrraedd ddefnyddio'r peiriant canfod cyffuriau. Mae cŵn canfod cyffuriau yn bresennol yn y dderbynfa. O 28 Mawrth 2022, bydd yr holl bost domestig yn cael ei lungopïo, ac ni fydd y gwreiddiol yn cael ei roi i garcharorion.

Yng Ngharchar Berwyn, nid yw gangiau yn ymwneud â chod post, ond maent yn gysylltiedig â grwpiau troseddau trefniadol. Mae hyn yn golygu eu bod yn

rhyngweithio mwy â'i gilydd i geisio hwyluso busnes a'u bod yn anoddach eu hynysu. Mae cronfa ddata dyledion yn rhoi manylion unrhyw ddyledion hysbys, sawl gwaith y mae unigolion wedi bod mewn dyled, a manylion y rhai dan sylw.

Cyhoeddir data ar ganfyddiadau cyffuriau ar gyfer pob cymuned yn yr adroddiad casglu gwybodaeth dactegol wythnosol (TIGIR). Mae hyn yn dangos cynnydd mewn darganfyddiadau cyffuriau ond mae nifer yr achosion o daflu drosodd wedi gostwng ac mae'r gost i garcharorion am dudalen o sylweddau seicoweithredol newydd (NPS) wedi codi o £80 i £500, sy'n dangos ei bod yn dod yn fwy anodd dod â chyffuriau i mewn i'r sefydliad, neu mae yna lai o gyffuriau yn cylchredeg.

5. Triniaeth deg a dyngarol

5.1 Llety, dillad, bwyd

Barn y Bwrdd yw bod amgylchedd y sefydliad yn eang, yn olau ac yn ffafriol i les. Mae cawodydd ym mhob cell, gan gynnwys yn y CSU. Mae mannau cyffredin yn lân, a rhoddir deunyddiau glanhau i garcharorion pan fyddant am lanhau eu celloedd. Mewn blynyddoedd blaenorol, tynnodd y Bwrdd sylw at gyflwr gwael celloedd, gyda phaent yn dod oddi ar y waliau, a diffygion yn y system wresogi. Mae'r contractwr gwreiddiol bellach wedi derbyn cyfrifoldeb ac, yn dilyn prawf chwe mis i wirio olion paent ar y waliau, mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith. Mae'r falfiau pibell gwresogi yn cael eu disodli, a fydd yn golygu bod y gwres yn gyson trwy'r sefydliad.

Mae golchdai ym mhob cymuned, gyda sawl peiriant golchi a sychwr. Mae Amey, y contractwr cynnal a chadw, yn brysbennu diffygion felly weithiau mae'n cymryd hyd at wyth wythnos i sychwyr gael eu trwsio.

Mae'r ceginau wedi'u cyfarparu'n dda ac yn cael eu staffio gan garcharorion, dan oruchwyliaeth staff. Mae'r ceginau'n lân, ac mae gwiriadau offer, gan gynnwys gwiriadau dyddiol, yn cael eu cofnodi ac roeddent yn gyfredol pan gawsant eu gwirio gan y Bwrdd. Mae dietau penodol ar gael, gyda darpariaeth ar gyfer dosbarthu bwyd poeth yn ystod Ramadan. Roedd pum cwyn am fwyd yn 2021, o gymharu â thair ar ddeg yn 2020.

5.2 Gwahanu

Mae'r uned mewn cyflwr da. Mae llety ar gyfer 21 o garcharorion yn y CSU, sydd yn anaml â thros 14 yno. Mae'r Bwrdd wedi sylwi bod y staff ar y CSU yn gefnogol, ac yn wybodus am amgylchiadau pob carcharor.

Mae nifer o garcharorion wedi cael eu cadw ar CSU am dros 42 diwrnod, oherwydd eu bod yn aros i ysbytai diogel eu derbyn. Os oes angen cadw carcharorion ar wahân am fwy na 42 diwrnod, mae angen cael awdurdod uwch swyddog yn swyddfa'r Grŵp Cyfarwyddwr Carchardai..

Roedd y ffeiliau ACCT a wiriwyd o bryd i'w gilydd gan y Bwrdd yn gyfredol.

Cwblhawyd 100% o gyfweiliadau ac adolygiadau gofal iechyd o fewn yr amser a ganiatawyd. Mynychir adolygiadau Rheol 45 gan lywodraethwr a chynrychiolydd o ofal iechyd. Nid oedd y Bwrdd yn gallu bod yn bresennol yn ystod y cyfyngiadau symud, ond mae hyn wedi cael ei adfer ers diwedd 2021. Roedd mwyafrif helaeth y carcharorion yn derbyn eu bod wedi cael eu rhoi yn yr CSU am reswm da.

Mae pedwar ar ddeg o'r 16 o swyddogion presennol yn CSU wedi cael hyfforddiant swyddog cyswllt dyfarnu (ALO). Bydd nifer o recriwtiaid newydd yn cael hyfforddiant ar Zoom.

Mae'r Bwrdd wedi sylwi'n gyson bod y CSU yn cael ei redeg yn dda a'i staffio gan swyddogion empathig ac ymroddedig sy'n creu uned eithriadol o dawel a chadarnhaol. Roedd adolygiadau gwahanu a fynychwyd gan y Bwrdd yn dilyn y broses briodol ac yn dangos tystiolaeth o dosturi adeiladol.

5.3 Perthynas staff-carcharor, gweithwyr allweddol

Barn y Bwrdd yw bod y berthynas yn dda ar y cyfan. Mae'r Bwrdd yn nodi enghreifftiau o arfer da fel rhedeg cymysg drwy'r parc gan staff a charcharorion, sy'n annog gwell perthnasoedd.

Fodd bynnag, mae nifer o garcharorion wedi dweud wrth y Bwrdd eu bod yn teimlo nad yw staff yn dangos digon o barch. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gromlin ddysgu serth i staff newydd ddysgu sut i weithredu o fewn carchar, nad yw wedi cael ei helpu gan lawer o swyddogion sy'n dechrau cyflogaeth mewn cyfundrefn gyfyngedig Covid-19 gyda charcharorion sydd dan gyfnodau hir o gaethiwed yn eu celloedd. Mae tîm rheoli'r carchar yn ymwybodol o hyn ac wedi gwneud cais am arian ac wedi cael cyllid ar gyfer tîm hyfforddi safonol i weithio ar y safle ac uwchsgilio'r gweithlu.

Mae'r sefydliad yn araf i ddyrannu gweithwyr allweddol. Mae cynlluniau i gynyddu lefel y gwaith allweddol yn raddol wrth i'r carchar symud ymlaen drwy ei gynllun adfer Covid; bydd y Bwrdd yn monitro hyn dros y flwyddyn i ddod. Dosbarthwyd gwybodaeth hyfforddiant rheoli cynllun her, cymorth ac ymyrraeth (CSIP) i'r holl staff.

Lle mae data defnydd o rym yn crybwyll swyddogion penodol sawl gwaith, ymchwilir i hyn, a chymerir camau unioni. (*Gweler Adran 4.4: defnydd o rym*)

5.4 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae gan y carchar staff dynodedig fel cynrychiolwyr ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig, ynghyd â chynrychiolwyr cydraddoldeb o blith carcharorion ym mhob bloc tai. Yn gyffredinol, cynhelir cyfarfodydd cydraddoldeb bob mis ac mae gan y Llywodraethwr rôl arweiniol. Mae cyfarfodydd wedi parhau i fod yn gyfyngedig o ran personél sy'n mynychu oherwydd y pandemig a mesurau pellhau cymdeithasol. Mae'r Bwrdd Monitro Annibynnol yn adolygu cofnodion y cyfarfodydd ac yn cael cyfle i holi cwestiynau wrth iddynt godi.

Mae'r nodwedd warchodedig yn arwain fforymau cynnal ar draws y carchar. Mynychir y rhain gan staff carchardai a hyd at saith carcharor, sy'n cael eu dewis yn rhannol ar sail y ffurflenni adrodd am ddigwyddiad gwahaniaethu (DIRFau) a gyflwynir. Yn y cyfnod adrodd, roedd fforymau'n cynnwys: hil, dementia, oedran (hŷn), oedran (18), LHDTC+ a staff benywaidd. Mae cwestiynau gosod yn cael eu trafod a chmau gweithredu yn cael eu cofnodi a'u monitro.

Anogir staff i godi materion a chyflwyno DIRFau. Dywedwyd yn ystod sawl cyfarfod cydraddoldeb a gynhaliwyd ar gyfer swyddogion benywaidd bod swyddogion benywaidd yn dioddef cam-drin rhywedd gan swyddogion eraill ac nad ydynt yn adrodd amdano. Lanswyd grŵp cefnogi staff benywaidd ym mis Medi.

Dros y cyfnod adrodd, derbyniodd y Bwrdd ddeg cais a gofnodwyd yn y categori cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chanfuwyd bod dau ohonynt yn peri pryder, ond cawsant eu hadolygu gan y Llywodraethwr a'u datrys.

Mae nifer y carcharorion Cymraeg eu hiaith yn y carchar ar hyn o bryd yn gostwng. Ymhlith y staff, mae'r arweinydd Cymraeg wedi darparu sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws yr uwch dîm rheoli (UDRh), ac mae hyn wedi arwain at ddau uwch reolwr yn dysgu Cymraeg. Nod y carchar yw cynyddu cyflogaeth neu addysg ar gyfer pob grŵp o fewn y carchar, y bydd y Bwrdd yn ei fonitro yn ystod y flwyddyn fonitro i ddod.

5.5 Ffydd a chefnogaeth fugeiliol

Roedd grwpiau gweddi wedi cael eu rhwystro yn wreiddiol ar ddechrau'r flwyddyn adrodd oherwydd y cyfyngiadau pandemig parhaus ar gyfarfodydd grwpiau. Erbyn diwedd Gorffennaf, roedd pob carcharor yn gallu mynychu gwasanaethau crefyddol.

Rhodddwyd pwyslais ar sicrhau bod carcharorion yn gallu mynychu eu sesiynau gweddi ar amser ac mae'r Llywodraethwr yn ymrwmo i fonitro hyn i sicrhau gwelliant. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf.

5.6 Cynlluniau cymhelliant

Mae system glir, gyda chanllaw sut i reoli lefelau cymhelliant, a esbonnir hefyd yn ystod y cyfnod sefydlu. Mae'r Bwrdd yn credu bod y cynllun cymhelliant yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws gwahanol grwpiau demograffig, yn rhannol oherwydd y cofnodion adolygu lefel cymhelliant ar NOMIS a gafodd eu monitro trwy gydol y flwyddyn adrodd. Roedd yr adolygiadau a fonitwyd yn cael eu cynnal o fewn yr amserlenni gofynnol ac yn cynnwys camau gweithredu penodol.

Mae newidiadau mewn lefelau cymhelliant yn cael eu hesbonio'n glir ar y cyfan i garcharorion, sydd hefyd yn cael cyfle i apelio yn erbyn penderfyniadau. Mae'r Bwrdd wedi gweld tystiolaeth bod adennill lefelau cymhelliant yn gymhelliant cryf i ymddygiad da a bod yr ymddygiad da hwn yn cael ei gydnabod yn ysgrifenedig i'r carcharorion dan sylw.

5.7 Cwynion

Mae'r Bwrdd yn cynghori carcharorion i ddefnyddio'r prosesau a'r gweithdrefnau mewnol sy'n bodoli er mwyn datrys eu problemau cyn cyflwyno ceisiadau. Fodd bynnag, mae carcharorion yn dweud yn aml nad oes ganddynt lawer o hyder yn system gwynion ffurfiol y carchar.

Mae profiad y Bwrdd o ymdrin â cheisiadau yn rheolaidd yn nodi nad yw cwynion carcharorion yn cael eu hateb o fewn yr amserlen ofynnol.

O ran prydlondeb ymatebion, dim ond 46% o'r holl gwynion yn 2021 a gafodd ymatebion o fewn yr amser targed a bennwyd yn genedlaethol. Ar gyfer y tair adran

gyda'r nifer uchaf o gwynion, roedd cyfran yr ymatebion a gwblhawyd o fewn yr amser penodedig yn 44% ar gyfer y blociau llety; 39% ar gyfer rheoli troseddwy/cynllunio dedfryd; a 44% ar gyfer derbynfa (eiddo).

O ran rhesymau posibl dros y perfformiad gwael hwn, nododd y carchar broblemau mawr o ran recriwtio staff (*gweler adran 3.1*).

5.8 Eiddo

Cododd ceisiadau am broblemau eiddo yn y carchar o 40 yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf i 60 yn y flwyddyn adrodd hon. Mae rhai ohonynt yn cyfeirio at eiddo nad oedd wedi'i awdurdodi i fod dan eu meddiant. Gostyngodd ceisiadau mewn perthynas â cholledion eiddo wrth drosglwyddo yn yr un cyfnod o bedwar ar ddeg i naw, ond gall y nifer isel hwn fod oherwydd y gostyngiad cyffredinol mewn trosglwyddiadau.

6. Iechyd a lles

6.1 Gofal iechyd cyffredinol

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn y Berwyn. Cafodd y grŵp ffocws iechyd a lles misol, a fynychir gan staff gofal iechyd, mentoriaid cymheiriaid a charcharorion, ei atal yn ystod Covid-19. Ym mis Rhagfyr 2020, cynhaliwyd sesiwn cwestiwn ac ateb lle anogwyd preswylwyr i gyflwyno cwestiynau trwy UniLink i banel o staff gofal iechyd a mentoriaid cymheiriaid, ond daethpwyd â hyn i ben am y tro gan yr ystyriwyd ei fod yn anghynhyrchiol. Ailddechreuodd y grŵp ffocws ar 26 Ionawr 2021, a fynychwyd gan wyth o staff gofal iechyd ac un ar bymtheg o garcharorion, gan gynnwys mentoriaid cymheiriaid.

Mae gan gynrychiolydd gofal iechyd swyddfa yn y dderbynfa a chaiff unrhyw faterion a godwyd yno eu cofnodi ar System-1.

Mae cynrychiolydd gofal iechyd yn bresennol mewn adolygiadau gwahanu ac ACCT ac mewn cyfarfodydd SIM wythnosol (*gweler adran 4.2: hunanladdiad a hunan-niweidio, marwolaethau yn y ddalfa*). Nid yw pob ACCT wedi'i gwblhau'n llawn, nac wedi cael ei lofnodi a'i ddyddio (*gweler adran 4.2*). Nid yw staff bob amser yn cofnodi ansawdd y sgysiau â charcharorion ar ddogfennau ACCT, ac mae hyn yn cael ei fonitro a'i herio trwy wiriadau sicrhau ansawdd rheolaidd.

Yn 2021, roedd y nifer uchaf o geisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol eto yn ymwneud â gofal iechyd, gan gynnwys meddyginiaeth. Mae hyn wedi gostwng o 135 i 106 o'i gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol. Mae cyfran sylweddol o geisiadau yn ymwneud ag atal meddyginiaeth wrth gyrraedd y carchar, a wneir i wirio am lefelau cyffuriau yn y gwaed, ac i sicrhau nad yw carcharorion yn derbyn meddyginiaeth nad oes ei hangen arnynt mwyach a ph'un ai a allent dderbyn meddyginiaeth a fyddai o bosibl yn fwy effeithiol, neu o bosibl, ymyriad difeddyginiaeth. Lle mae carcharorion wedi bod ar feddyginiaeth ers degawdau, gall y broses o ail-gyflwyno cyffuriau fod yn rhy araf, ond mae llawer o'r cwynion ar y pwnc hwn yn ymwneud â'r ffaith eu bod wedi arfer ag adnewyddu presgripsiwn yn awtomatig, neu oherwydd bod modd masnachu'r feddyginiaeth a bod colli'r feddyginiaeth yn golygu colli incwm.

6.2 Gofal iechyd corfforol

Nid oes darpariaeth cleifion mewnol yn y Berwyn.

Anogwyd pob carcharor i dderbyn brechiadau Covid-19. Ar 28 Chwefror 2022, roedd 52% o garcharorion wedi cael dau frechiad ac roedd 35% wedi cael dau frechiad ac un pigiad atgyfnerthu. Dywedodd llawer o'r rhai a wrthododd nad oeddent yn gweld y pwynt a hwythau dan glo beth bynnag.

Mae 120 o staff gofal iechyd, gan gynnwys staff gweinyddol, ffisio, nyrsys, meddyg teulu a'r tîm camddefnyddio sylweddau. Mae yna hefyd bedwar mentor cymheiriaid

sydd wedi cwblhau cwrs hyfforddi tri mis Lefel 2 gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Dechreuodd meddyg teulu ychwanegol weithio ar 7 Chwefror 2022. Mae pob meddyg teulu yn delio â 30 o garcharorion y dydd.

Mae adroddiadau misol yn cofnodi heb fynychu (DNA) a methu a mynychu (CNA) ar gyfer pob apwyntiad gofal iechyd ac yn dangos rhaniad 50/50 ar gyfer pob diffyg presenoldeb. Ym mis Rhagfyr 2021, cyrhaeddodd canran yr apwyntiadau a gollwyd 9.8%.

Mae gan Betsi Cadwaladr linell gymorth iechyd a lles a chanolfan sy'n cael ei staffio'n bennaf gan ddynion, sy'n cael eu cefnogi gan staff gofal iechyd. Mae'r carcharorion hyn yn gweithredu fel mentoriaid cymheiriaid iechyd a lles ac yn cael eu dewis a'u hyfforddi'n benodol ar gyfer y rôl. Mae'r carcharorion hyn yn llofnodi ac yn cytuno i gadw at y gofynion cyfrinachedd gofynnol. Mae'r mentoriaid cymheiriaid yn cefnogi carcharorion mewn rôl fel derbynnydd meddyg teulu cyffredinol, ochr yn ochr â darparu cymorth ac arweiniad manylach sy'n benodol i'r carchar. Os yw carcharorion yn cael anhawster darllen llythyrau apwyntiad meddyg teulu neu lythyrau yn esbonio pam fod eu meddyginiaeth wedi cael ei hatal, gallant ofyn am gael gweld y mentor neu swyddogion ar yr adain.

Mae'r mentoriaid cymheiriaid yn atgoffa carcharorion am apwyntiadau a chysylltir eto ag unrhyw un sy'n methu tri apwyntiad neu fwy mewn un mis i geisio sefydlu'r rhesymau y tu ôl i'r diffyg presenoldeb. Y prif resymau yw bod apwyntiadau'n gwrthdaro â'r gampfa neu ymarfer corff, felly mae carcharorion yn cael eu hannog i gysylltu â'r llinell gymorth neu gyflwyno 'canslo fy apwyntiad' trwy gais mewnrrwyd y carchar Unilink pan na fyddant yn gallu bod yn bresennol. Mewn rhai achosion, nid yw staff wedi bod yn datgloi carcharorion ar gyfer apwyntiadau ac mae staff gofal iechyd bellach yn cynnal hapwiriadau ar gyfer datgloi.

Yn y flwyddyn adrodd ddiwethaf, roedd cyfartaledd o dros 700 o garcharorion yn aros am apwyntiadau deintyddol. Ar ddiwedd y flwyddyn adrodd roedd deintydd ychwanegol a dwy nyrs ddeintyddol ychwanegol wedi'u penodi.

Mae nifer o fentrau hybu iechyd, a darperir y wybodaeth ddiweddaraf ar sianel deledu Berwyn. Os caiff setiau teledu eu gwahardd am resymau disgyblu, mae'r wybodaeth hefyd ar liniaduron yn y celloedd.

Yn aml mae amseroedd aros hir ar gyfer trosglwyddo i gyfleusterau iechyd meddwl diogel. Hysbysodd Betsi Cadwaladr y Bwrdd fod hyn oherwydd diffyg gwelyau yn y sefydliadau derbyn, ac oherwydd bod carcharorion yn cael eu brysbennu fel blaenoriaeth isel, canolig ac uchel, ac felly bod carcharorion â blaenoriaeth isel yn gorfod disgwyl yn hirach.

6.3 Iechyd meddwl

Mae yna gymuned iechyd meddwl arbenigol, gyda mentoriaid cymheiriaid sydd wedi derbyn hyfforddiant gan y tîm iechyd meddwl. Dywedodd gwrandawyr a gafodd eu

cyfweld gan y Bwrdd fod ymwybyddiaeth a gwybodaeth dda am iechyd meddwl ar Berwyn TV. O fis Medi 2021, sefydlwyd sawl grŵp gofal sylfaenol iechyd meddwl, gan gefnogi carcharorion i ymdopi â materion anfeddygol fel hwyliau isel. Mae rhaglen iechyd meddwl newydd, Torri'n Rhydd, ar gael fel sesiwn TG yn unig yn dilyn atgyfeiriad gan ofal iechyd neu ddalffa fwy diogel.

Mae gan Garchar Berwyn EF system cymorth cymheiriaid a elwir yn Torwyr Cadwyn. Maen nhw wedi'u lleoli yng nghanolfan torri'r gadwyn yn y Capel ac yn cael eu cefnogi gan staff, sy'n sicrhau bod y Torwyr Cadwyn yn cael eu datgloi ac ar gael ar eu hadenydd yn ystod y dydd. Mae Torwyr Cadwyn wedi'u lleoli ar bob adain ac yn cynnig cymorth un-i-un, arweiniad a chyfeirio i garcharorion sy'n arddangos cylchoedd o ymddygiad heriol ac sy'n cael anhawster ymdopi neu fynegi eu hunain. Mae staff yr adain yn gweithio gyda Thorwyr Cadwyn i ddatrys ceisiadau cyffredinol a gyflwynir ac mae pob cyswllt Torrwr Cadwyn yn cael ei gofnodi er mwyn tryloywder a chyfeirio. Rhaid i bob aelod o staff gweithredol gael hyfforddiant iechyd meddwl, y mae llawer ohono ar-lein. Mae hyfforddiant gloywi ar gael a gellir cael mynediad at hyfforddiant ychwanegol trwy sawl ffynhonnell. Roedd staff a gafodd eu cyfweld gan y Bwrdd yn teimlo bod angen mwy o hyfforddiant arnynt mewn iechyd meddwl, anhwylderau personoliaeth ac Alzheimer's – gan fod mwy o garcharorion hŷn yn y sefydliad. Gofynnodd 95% o garcharorion hŷn a holwyd hefyd am hyfforddiant staff mewn dementia.

Mae amser aros o chwe wythnos ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion Wrecsam, ac mae oedi wrth drosglwyddo i lety addas wedi'i waethygu gan Covid-19.

6.4 Gofal cymdeithasol

Dros y flwyddyn adrodd ddiwethaf, bu dau weithiwr cymdeithasol yn gweithio gyda'r nos ond nid ar benwythnosau.

6.5 Ymarfer corff, trefn

Yn ystod y pandemig, caewyd campfeydd ond ers dechrau 2022 maent wedi ail-agor ac mae chwaraeon wedi aildechrau ar y cae pêl-droed. Mae rhediadau parc rheolaidd. Un o flaenoriaethau'r strategaeth gyffuriau yw darparu gwaith ystyrlon, ac mae hyn yn gwella wrth i'r gweithdai ailagor. Roedd amser allan o'r gell yn ystod y cyfnod cloi yn unol â chanllawiau cenedlaethol.

6.6 Adsefydlu cyffuriau ac alcohol

Mae arweinydd strategaeth gyffuriau wedi bod yn ei swydd ers mis Gorffennaf 2021. Mae swyddogion camddefnyddio sylweddau carchar (SMO) yn gweithio gyda thîm gwasanaethau camddefnyddio sylweddau (SMS) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Lansiwyd strategaeth camddefnyddio sylweddau tair blynedd ym mis Tachwedd 2021 ac mae hyfforddiant wedi'i ddarparu i gefnogi hyn. Cynhelir cyfarfod strategaeth cyffuriau bob mis.

Mae swyddogion camddefnyddio sylweddau carchar (SMO) yn monitro'r ciwiau meddyginiaeth er mwyn atal stocio meddyginiaeth. Mae deuddeg o gyn-gamddefnyddwyr sylweddau wedi cael eu hyfforddi fel hyrwyddwyr adferiad ac yn darparu hyfforddiant dadwenwyno. Rhoddir blaenoriaeth i dynnu sylw a gweithgarwch ystyrlon er mwyn helpu i leihau'r galw am gyffuriau.

Nid oes unrhyw esgyll adsefydlu cyffuriau arbenigol. Yn ystod y pandemig, dim ond ar-lein yr oedd cymorth ar gael, gyda nifer dda yn manteisio arno – ar gyfartaledd roedd 800 o garcharorion bob chwarter yn cael mynediad ato.

Cyflwynwyd strategaeth gyffuriau gynhwysfawr ym mis Chwefror 2022. Mae hyn yn mynd i'r afael â gwell cyfathrebu rhwng asiantaethau, gan gynnwys asiantaethau allanol.

Mae grwpiau cymorth wedi'u sefydlu yn y carchar, gyda rhai ohonynt yn cael eu harwain gan gymheiriaid. Mae canolfan galw heibio, a grŵp ar wahân ar gyfer carcharorion a gafwyd yn euog o droseddau rhyw.

Ar hyn o bryd mae gan y tîm SMS lwyth achosion o 500 o garcharorion ar eu rhaglen ddiddychu. Er i hyn gael ei gwtogi yn ystod y cyfyngiadau symud, gan ei fod bellach wedi'i ymlacio, cynigir sesiynau wyneb yn wyneb tair awr dros bedair wythnos.

6.7 Sgiliau meddal

Mae'r ddarpariaeth iechyd meddwl yn y Berwyn yn cynnwys ymwybyddiaeth ofalgar. Mae strategaethau hunangymorth ac ymdopi ar Berwyn TV, ac mae pecynnau hunangymorth yn cael eu hanfon at garcharorion sydd wedyn yn derbyn galwadau dilynol.

Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn aelodau o staff anraddedig (sydd ag NVQau) sy'n mynd allan i wirio carcharorion ac adrodd yn ôl ar eu cyflwr.

7. Cynnydd ac ailsefydlu

Yn ystod y flwyddyn adrodd, o'r cyrsiau achrededig a gyflawnwyd, enillwyd 1,808 o gymwysterau (nid yw hyn yn cynnwys cwblhau cyrsiau heb eu hachredu) mewn sawl maes gan gynnwys City and Guilds Lefel 1/2 mewn sgiliau defnyddwyr TG (10 dyfarniad); Iechyd a diogelwch Lefel 1 CSCS (620 o ddyfarniadau) ac Iechyd a diogelwch a diogelwch bwyd Lefel 2 (570 o ddyfarniadau); rheoli dicter (pedwar dyfarniad); deallusrwydd emosiynol (89 dyfarniad); Iaith, traddodiadau ac arferion Cymreig (12 dyfarniad).

7.1 Addysg, llyfrgell

Mae Novus Cambria/Coleg Berwyn yn darparu cyfleusterau addysg i Garchar Berwyn EF. Mae perfformiad yn cael ei fonitro gan dîm rheoli contractau Cynulliad Cymru (ESTYN). Yn ystod y cyfnod adrodd hwn lluniodd y coleg adroddiad hunanasesu. Allan o bum maes, graddiodd ESTYN ddau yn rhagorol a'r tri arall yn dda. Yn ogystal â'r cyrsiau sydd wedi'u hamserlennu, mae'r coleg hefyd yn darparu swyddogaeth addysg ar gyfer carcharorion remand lle bo angen, i nifer fach o drosoddwyr ifanc (preswylwyr gogledd Cymru yn unig), i PCOSO a charcharorion agored i niwed.

Mae Coleg Berwyn hefyd yn darparu addysg Sgiliau Hanfodol Cymru mewn llythrennedd, rhifedd a Chymraeg ochr yn ochr â TG, cyfryngau digidol, arlwyio, mentora, celf, celfyddydau perfformio ynghyd ag ystod bellach o gyrsiau cyflogadwyedd gan gynnwys gosod brics, plastro, saernïaeth safle a mainc, garddwriaeth a glanhau diwydiannol.

Roedd nifer y carcharorion a ddechreuodd ar gyrsiau yn 4,093. Y gyfradd gadw oedd 97%, y gyfradd gwblhau oedd 96% a chafodd 91% dystysgrif. Roedd y gyfradd presenoldeb (gan gynnwys absenoldeb awdurdodedig) yn 84.16% ac, o ystyried yr anawsterau a brofwyd yn ystod y flwyddyn, yn rhesymol.

Dros y cyfnod adrodd hwn, cafwyd llawer o newidiadau a chyfyngiadau, yn bennaf oherwydd Covid. Arweiniodd hyn at leihad yn y cwricwlwm ar un adeg, gan ddychwelyd yn ddiweddarach i'r cwricwlwm llawn a darpariaeth yn y celloedd.

Bu Coleg Berwyn hefyd yn gweithio'n agos gyda'r ganolfan ailsefydlu i sicrhau bod y dysgu'n darparu anghenion cyflogaeth cyfatebol ac yn cefnogi'r hyn yr oedd y carcharorion ei angen er mwyn cael y gwaith a ffafir ganddynt ar ôl eu rhyddhau.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i ddarparu gwasanaeth llyfrgell mewnol i Berwyn. Oherwydd y pandemig gwasanaeth dosbarthu yw hwn. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, mae'r llyfrgell yn cynhyrchu taflen ffeithiau bob pythefnos gyda'r holl wybodaeth sydd ar gael. Mae llyfrau arbenigol hefyd ar gael fel sain, print bras, ieithoedd tramor, llyfrau plant a chyhoeddiadau cyfreithiol gorfodol.

Am y naw mis diwethaf, mae'r llyfrgell wedi bod yn cynnal sesiynau gwranddo ac ymlacio. Nodwyd bod cyfartaledd o 430 o garcharorion yn defnyddio'r cyfleuster hwn bob mis.

7.2 Hyfforddiant galwedigaethol, gwaith

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol bod Covid-19 wedi effeithio'n ddifrifol ar ddarpariaeth gweithdai, gyda rhai o'r darparwyr allanol blaenorol yn penderfynu peidio â dychwelyd.

Yn ystod y pandemig, roedd cyfartaledd o 470 o garcharorion mewn cyflogaeth amser llawn. Y cynllun adfer fu darparu isafswm o ddyraniad gweithgaredd rhan amser i bob carcharor, lle bo'n berthnasol, erbyn 31 Gorffennaf 2022. Mae'r cynnydd yn cael ei fonitro gan y Bwrdd.

7.3 Rheoli troseddwy, dilyniant

Mae'r Bwrdd yn nodi bod hon eto wedi bod yn flwyddyn heriol gyda llai o gapasiti gweithredol ar gyfer trosglwyddiadau. Y mae'r Bwrdd yn deall bod gostyngiadau mewn staffio gweithredol mewn cyswllt â Covid-19 wedi dylanwadu ar hyn. Mae hwn yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder.

Roedd ôl-groniad o 56 ar y system asesu troseddwy (OASyS) ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn, sy'n effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth. Gwnaed ymdrech sylweddol i leihau'r ôl-groniad ond mae meysydd i'w datrys o hyd. Pennir staffio tîm OCA ar lefel genedlaethol; fodd bynnag, mae'r llwyth gwaith OCA sylweddol bellach wedi'i gydnabod yn lleol ac mae gweinyddwr OCA ychwanegol wedi'i ddyrannu o blith staff presennol y carchar ers 1 Mawrth 2022.

Mae nifer o staff prawf yn gweithio o fewn yr Uned Rheoli Troseddwy (OMU). Mae cyfarfodydd rheolaidd o fewn yr uned rhwng y ddwy ardal i gynnal trosolwg o ddarpariaeth rheoli troseddwy yn y ddalfa (OMiC) yn y carchar. Mae ffocws penodol ar drosglwyddo cyfrifoldeb am reoli troseddwy i'r gymuned cyn rhyddhau.

Pennaeth y gwasanaethau rheoli troseddwy sy'n gwneud y penderfyniadau ar gyfer y broses cyrffiw cadw yn y cartref (HDC). Yn ystod y cyfnod adrodd, rhyddhawyd 218 o garcharorion ar y cynllun HDC.

Mae rhaglenni troseddwy, gan gynnwys Kaizen a Thinking Skills, wedi'u cynnal, ond i ddarparu ar gyfer cyfyngiadau Covid-19 ar y pryd, roedd grwpiau llai o rhwng pump a 13 o garcharorion. Mae hyn wedi peri cryn ddryswch gyda rhai o'r carcharorion sydd wedi cael eu cynghori i drosglwyddo i'r Berwyn yn benodol i ymgymryd ag un o'r cyrsiau, dim ond i ddarganfod bod lleoedd yn gyfyngedig iawn.

7.4 Cyswllt teuluol

Mae gan bob cell ffôn, a rhoddir rhifau pin i'r carcharorion sy'n caniatáu iddynt gael mynediad at rifau ffôn allanol cymeradwy. Mae'r gallu i brynu credyd ffôn ychwanegol yn gysylltiedig â lefel cymhelliant carcharor. Mae'r carcharorion yn cael eu hannog i gael llyfrau plant wedi'u dosbarthu o'r llyfrgell fel y gallant ddarllen straeon amser gwely i'w plant dros y ffôn. (*Gweler adran 7.1: Addysg, llyfrgell*)

Mae post sy'n dod i mewn yn cael ei brosesu trwy ystafell bost ganolog a'i ddosbarthu i bob un o'r tai priodol. Mae'r Bwrdd yn nodi newid yn y broses ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf (*gweler adran 4.5: eitemau anghyfreithlon*).

Mae ymweliadau'n cael eu harchebu ar-lein, ac mae'r Bwrdd yn nodi bod hyn wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer y ceisiadau ar y pwnc hwn. Yn ystod Covid, cafodd yr holl ymwelwyr eu profi cyn mynediad. Roedd sesiynau awr yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd gydag uchafswm o 35 o leoedd personol fesul sesiwn, a 15 carcharor fesul sesiwn galwad fideo cymdeithasol.

Mae'r Bwrdd yn nodi enghreifftiau o arfer da gan yr Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchardai megis clybiau gwaith cartref rhithwir, lle gall tadau helpu eu plant, cyfarfodydd gydag ymwelydd ieuchyd gyda'u partner i drafod agweddau ar feichiogrwydd a chaniatáu ymweliadau tadau tro cyntaf, lle mae llun yn cael ei dynnu gyda'r babi newydd-anedig.

Mae'r adran addysg yn hwyluso cyrsiau perthnasol ond gyda chyfyngiadau Covid mae'r cwricwlwm wedi'i redeg yn rhan amser. O'r 283 o sesiynau bore a phrynhawn a drefnwyd, bu'n rhaid canslo 100 er mwyn ystyried materion megis diwrnodau cau i lawr, symudiad cyfyngedig oherwydd Covid a diffyg presenoldeb dysgwyr. Cwblhaodd 53 o'r 56 o garcharorion cofrestredig y cyrsiau.

7.5 Cynllunio ailsefydlu

Fel yr adroddwyd y llynedd, bu Berwyn yn gweithio gyda thîm ailsefydlu St Giles i ddarparu gwasanaethau cymorth. Parhaodd hyn tan fis Mehefin 2021, pan gyflwynwyd model gweithredu newydd, ac uno'r agwedd prawf. Mae'r gwasanaeth prawf bellach yn gweithio gyda gwasanaethau adsefydlu a gomisiynwyd gan hwyluso llety i garcharorion yn y Berwyn sydd wedi'u rhyddhau i Ogledd Cymru. Mae carcharorion sydd ar fin gadael y carchar yn cael eu cefnogi gan reolwr troseddwyd cymunedol, rheolwr troseddwyd carchar ac ymarferydd ailsefydlu wrth gynllunio a darparu ymyriadau ar gyfer rhyddhau.

Dros y cyfnod adrodd, rhyddhawyd 1,419 o garcharorion. Mae carcharorion yn cael eu rhyddhau o'r Berwyn i bob rhan o Gymru a Lloegr ond yn bennaf i ogledd orllewin Lloegr a gogledd Cymru. O'r rhai a ryddhawyd, roedd gan 92% llety noson gyntaf.

Mae'r Bwrdd yn nodi enghraifft o arfer rhagorol gyda chyflwyniad canolbwynt adsefydlu. Mae hwn yn amgylchedd croesawgar lle gall carcharorion gwrdd ag aelodau allweddol o'r staff ailsefydlu. Mae'r ganolfan yn cynnwys unedau cyfarfod preifat a banciau o liniaduron i garcharorion gael mynediad at wasanaethau allweddol.

Fel rhan o waith y canolbwynt, yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, mae peilot wedi ei gynnal yn y Berwyn mewn perthynas â'r Prosiect Cyflymu Lleihau aildroseddu. Hwyluswyd hyn gan dîm ac roedd yn cwrdd meysydd penodol llety, dilyniant dysgu cwricwlwm a niwroamrywiaeth (CLPNL) a chyflogaeth.

Datblygwyd perthnasoedd cadarnhaol gyda 23 o awdurdodau lleol yn rhanbarth Gogledd Cymru i wella canlyniadau llety ar ôl rhyddhau, gan dargedu'r ardaloedd lle

mae carcharorion o'r Berwyn yn debygol o gael eu rhyddhau iddynt. Yn gyffredinol, gwneir asesiadau awdurdodau lleol dros y ffôn neu drwy gyswllt fideo. Mae'r broses OMiC ddiwygiedig yn fyw yng Ngogledd Cymru ac yn cael ei hystreio i ranbarthau eraill, ac yn y cyfamser mae Carchar Berwyn EF yn ymdrechu i bontio'r bwlch. Er mwyn darparu gwybodaeth hygyrch i staff a charcharorion, datblygwyd gêm wedi'i hysbrydoli gan Monopoly o'r enw HOME (gwneud dewisiadau cartref yn haws). Mae'r Bwrdd yn nodi bod y mentrau hyn ynghyd ag eraill o fewn y pwnc hwn wedi ymwneud yn uniongyrchol â gwelliant mewn llai o garcharorion yn cael eu rhyddhau heb gartref sefydlog (NFA).

Nid oes gan Berwyn ei brosesau ei hun ar waith i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth CLPNL o fewn meysydd addysg, sgiliau a gwaith y carchar; datblygwyd grŵp gwella ansawdd. Rhoddir cyfeiriadau yn eu lle ar gyfer unigolion ag anghenion ychwanegol pan fyddant yn dod i mewn i'r sefydliad yn hytrach na phan fyddant wedi cyrraedd pwynt argyfwng.

Nodir bod gwelliant wedi bod mewn rhyddhau ar leoliadau trwydded dros dro (ROTL). Hyd yma, mae'r rhain wedi'u cyfyngu i raddau helaeth i ardaloedd â chysylltiadau trafniadaeth i'r Berwyn. Oherwydd Covid-19, dim ond ym mis Awst 2021 y dechreuodd y cynllun ac ers hynny mae deg carcharor wedi'u lleoli. Mae pedwar wedi'u rhyddhau a chael cynnig cyflogaeth gyda'u cwmnïau priodol, gyda thri yn derbyn, dau mewn cwmni arall i'w hasesu ac mae'r gweddill yn dal yn eu lleoliadau priodol.

Yn y flwyddyn adrodd hon, gan ddechrau ym mis Tachwedd 2021, mae tair ymgyrch gyflogaeth wedi'u cynnal, yn cynnwys cwmnïau yn y diwydiannau arlwy, adeiladu a chludo. Gwahoddwyd cyflogwyr lleol i'r sefydliad a'u cefnogi i gynnig a darparu cyflogaeth barhaus yn llwyddiannus i garcharorion cyn ac ar ôl eu rhyddhau.

Caiff carcharorion eu cynorthwyo gan Novus Cambria gyda sgiliau cyfweld a llunio CV. Mae'r darpar gyflogwyr yn cyfarfod â'r carcharorion sydd wedi dangos diddordeb ac yn nodi ymgeiswyr addas, gan arwain at gyfweiliad un-i-un.

Yn dilyn y digwyddiadau arlwy ac adeiladu, gwnaed dau ddeg chwech o gynigion swydd allan o bedwar deg wyth o gyfweiliadau ac yn dilyn y cyfweiliadau cludo, nodwyd gofynion hyfforddi a allai ddigwydd yn fewnol ac yn allanol ar ôl rhyddhau ac mae'r Bwrdd yn nodi bod efelychydd gyrru wedi'i osod yn y canolbwynt ailsefydlu ers hynny.

Tua diwedd y flwyddyn adrodd hon mae'r Bwrdd wedi gweld lefelau cyflogaeth uwch ar ôl rhyddhau o ganlyniad i waith y peilot hwn. Gan nad oedd y mentrau hyn ar waith mewn blynyddoedd blaenorol, bydd y Bwrdd yn gwylio gyda diddordeb sut mae'r meysydd yn datblygu dros y flwyddyn i ddod ac yn eu monitro yn unol â hynny.

Gwaith y Bwrdd Monitro Annibynnol

Roedd y Bwrdd yn gallu aildechrau mynychu'r carchar o fis Ebrill 2021. Yn y cyfarfod adolygu blynyddol, gan fod niferoedd aelodau'r Bwrdd yn dal yn isel, nododd y Bwrdd feysydd ffocws, a'r ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn wedi arwain at weithgareddau wedi'u targedu'n well a gwell cyfathrebu. Mae aelodau hefyd wedi gallu nodi a diwallu eu hanghenion hyfforddi eu hunain.

Mae'r berthynas ag uwch dîm rheoli'r carchar yn dda ac yn gynhyrchiol. Mae'r UDRh yn ymateb yn dda i gwestiynau a cheisiadau am wybodaeth.

Ymunodd un aelod newydd â'r Bwrdd ganol y flwyddyn, ond nid oedd aelodau posibl eraill yn gallu ymuno oherwydd materion gweithdrefnol. Ymddiswyddodd tri aelod o'r Bwrdd, ac yn anffodus bu farw un tra ar y Bwrdd. Mae dau aelod yn parhau ar gyfnod sabothol. Mae recriwtio ar gyfer aelodau newydd yn parhau.

Ystadegau'r Bwrdd

Y nifer a argymhellir o aelodau'r Bwrdd	18
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfnod adrodd	15
Nifer aelodau'r Bwrdd ar ddiwedd y cyfnod adrodd	12 aelod, 2 ohonynt ar gyfnod sabothol
Cyfanswm yr ymweliadau â'r sefydliad	367
Cyfanswm nifer yr adolygiadau gwahanu a fynychwyd	107

Ceisiadau i'r Bwrdd Monitro Annibynnol (gan gynnwys drwy'r llinell ffôn 0800)

Cod	Pwnc	Blwyddyn adrodd flaenorol	Blwyddyn adrodd gyfredol
A	Llety, gan gynnwys golchi dillad, dillad, golchiadau	40	54
B	Disgyblaeth, gan gynnwys dyfarniadau, Cymhellion a Breintiau a Enillir, sancsiynau	37	28
C	Cydraddoldeb	11	10
D	Gweithgaredd pwrpasol, gan gynnwys addysg, gwaith, hyfforddiant, llyfrgell, trefn, amser allan o'r gell	34	22
E1	Llythyrau, ymweliadau, ffonau, cyfyngiadau diogelu'r cyhoedd	72	48
E2	Cyllid, gan gynnwys tâl, arian preifat, gwariant	16	19
F	Bwyd a cheginau	13	5
G	Iechyd, gan gynnwys gofal corfforol, meddyliol, cymdeithasol	135	110
H1	Eiddo o fewn y sefydliad hwn	40	60
H2	Eiddo yn ystod y trosglwyddiad neu mewn sefydliad neu leoliad arall	9	28
H3	Ffreutur, rhestr cyfleusterau, catalog(au)	11	6
I	Rheoli dedfrydau, gan gynnwys Cyrffyw Cadw yn y Cartref, rhyddhau ar drwydded dros dro, parôl, dyddiadau rhyddhau, ail-gategoreiddio	81	96
J	Pryderon staff/carcharor, gan gynnwys bwlio	86	72
K	Trosglwyddiadau	22	34
L	Amrywiol, gan gynnwys system gwynion	98	97
	Cyfanswm y ceisiadau	705	689

Cytunwyd ar yr adroddiad hwn yng nghyfarfod Bwrdd mis Awst y Bwrdd Monitro Annibynnol yng Ngharchar Berwyn EF a'i lofnodi gan

Cadeirydd John Atherton ac Is-Gadeiryddion Mitchell Long, Ceri Smith a Robert Selby



Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn imb@justice.gov.uk